# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## DYDD IAU, 29 CHWEFROR 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | J.M. Charles | P. Cooper | M. Donoghue |
| J.K. Howell | A.C. Jones | M.J.A. Lewis | B.D.J. Phillips |
| E. Skinner | R. Sparks | | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | |
|---|---|---|
| T. Davies | A. Leyshon | D.E. Williams |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd T. Higgins, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/06651 (Yn rhithwir)
Y Cynghorydd H. Jones, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/06529 (Yn y siambr)
Y Cynghorydd L.R. Bowen, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/06880 (Yn rhithwir)

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
G. Morgan, Technegydd Cynorthwyol (Cyswllt Cynllunio)
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 3.50 yp**

[**NODER:**
- Am 11:35am cafodd y Pwyllgor egwyl ac ailymgynnull am 11:50am.
- Am 1:00pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]
- Cafodd y Pwyllgor egwyl am 2:00pm, cyn ailgynnull am 2:40pm.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. B. Thomas a D. Owen.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/04067** | **Adeiladu 14 o breswylfeydd fforddiadwy (safle eithriedig) gyda gwaith seilwaith cysylltiedig ar dir ger Heol Cilycwm, Llanymddyfri, SA20 0DU** |
| **PL/06479** | **Datblygiad Un Blaned yn cynnwys un caban, un storfa goed, un gweithdy gwehyddu, un tŷ gwydr a gweithdy, un sied storio, arae o baneli solar, llain lysiau gan gynnwys cawell ffrwythau, perllan, dwy goedlan, gwely helyg a dôl ar dir gyferbyn â Thŷ Derwen, Penybanc, Llandeilo, SA19 7TA** |
| **PL/06651** | **Newid defnydd tafarndy presennol yn breswylfa yn Nhafarn y Deri, Heol Ebenezer, Llanedi, Abertawe, SA4 0YT** |
| | Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.<br><br>Cafwyd sylwadau gan yr Aelod lleol a wrthwynebai'r cais ac a ail-bwysleisiai'r pwyntiau yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, gan gynnwys y pwyntiau isod:<br><br>• Roedd Tafarn y Deri yn fusnes llewyrchus.<br>·Roedd y safle yn cael ei feddiannu gan deulu a oedd yn rheoli'r dafarn ac a oedd yn lletya ac yn annog grwpiau elusennol lleol.<br>• Byddai newid y lle'n breswylfa yn golled fawr i'r pentref, a oedd yn llwyr gefnogi Tafarn y Deri.<br>• Roedd yn darparu cyflogaeth i bobl ifanc leol. |

| | |
|---|---|
| | Ymatebodd y swyddogion i'r materion a godwyd. |

**3.2 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â rhan ogleddol safle'r cais.**

| | |
|---|---|
| **PL/05187** | **Codi preswylfeydd newydd, mynediad i gerbydau, mannau agored a seilwaith cysylltiedig arall ar dir yn ,Cefncaeau, Llanelli** |

**3.3 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/06529** | **Annedd Angen Lleol (Ailgyflwyno PL/04500 a wrthodwyd ar 18/10/2022) ar dir yn Old Hunt Kennels, Llandybïe**, **Rhydaman, SA183NX** |
| | Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell gwrthod y cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.<br><br>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol yn cefnogi'r cais a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:<br><br>• Pryderon y byddai methiant ar ran yr Awdurdod i ddarparu cartrefi a gwaith i bobl leol yn cael effaith ar yr ardal leol.<br>• Dim ond ychydig y tu allan i ardal y Cynllun Datblygu Lleol oedd y safle datblygu ac roedd mewn ardal oedd eisoes ag adeiladau.<br>• Roedd yr ymgeiswyr yn cefnogi'r economi leol a phe baent yn cael eu gorfodi i symud byddai hynny'n cael effaith ar yr ardal.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r pwyntiau a godwyd. |
| **PL/06880** | **Adeiladu annedd (Ailgyflwyno PL/05554 a wrthodwyd ar 14/08/2023) ar dir yn 60 Heoly Felin, Pontyberem**, **Llanelli, SA155DB** |
| | Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell gwrthod y cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.<br><br>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol yn cefnogi'r cais a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Bod y cais ar gyfer tŷ cymharol fach ei faint o fewn gardd gefn fawr.<br>• Ni fyddai'r datblygiad yn effeithio'n andwyol ar amwynder tai cyfagos.<br>• Roedd sawl enghraifft eisoes o dai cyfagos oedd wedi eu hadeiladu'r tu ôl i'r tai oedd yn wynebu Heol y Felin.<br>• Roedd y datblygiad yn bwysig o ran cadw teulu ifanc yn y gymuned.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r pwyntiau a godwyd. |

## 4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 19 Chwefror, 2024.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1AF CHWEFROR, 2024

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2024, gan eu bod yn gywir.**

__________________________ ____________________

**CHAIR** **DATE**